

Cadeirydd Bwrdd Golygyddol *Gwerddon*: manylion y rôl

Cefndir *Gwerddon*

1. E-gyfnodolyn ymchwil y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yw [Gwerddon](#). Mae'n gyfnodolyn academaidd amlddisgyblaethol safonol. Cymraeg yw iaith y cyfnodolyn.
2. Cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf o *Gwerddon* ym mis Ebrill 2007. Fel rhan o'r ymdrech i hyrwyddo statws yr iaith o fewn addysg uwch, ystyriwyd ei bod yn hanfodol bwysig i hybu'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng ymchwil, ac felly sefydlwyd cyfnodolyn academaidd a fyddai'n fforwm ar gyfer cyhoeddi gwaith ysgolheigaidd cyfrwng Cymraeg ar draws y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau.
3. Mae *Gwerddon* yn gweithredu cyfundrefn arfarnu annibynnol ac yn arddel y safonau golygyddol uchaf. Mae'n gydnaws â gofynion y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF).
4. Golygir *Gwerddon* gan yr Athro Anwen Jones. Yr Is-Olygydd yw'r Dr Hywel Griffiths.
5. Fe'u cefnogir yn eu gwaith gan Fwrdd Golygyddol sy'n cynnwys ysgolheigion o amryw ddisgyblaethau ledled Cymru.
6. Cefnogir y Golygydd a'r Is-olygydd gan Gynorthwywyr Golygyddol o staff y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
7. Y Cadeirydd presennol yw'r Dr Paula Roberts. Bydd ei chyfnod fel Cadeirydd yn dod i ben ar 31 Awst 2024.

Swydd Ddisgrifiad

8. Y Cadeirydd sydd yn gyfrifol am gadeirio cyfarfodydd o Fwrdd Prosiect a Bwrdd Golygyddol *Gwerddon*.
9. Bydd dyletswyddau penodol yn cynnwys:
 - Cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd Golygyddol (dau y flwyddyn – y naill a'r lein a'r llall wyneb yn wyneb, yn Aberystwyth fel arfer);
 - Cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd Prosiect (dau ar-lein y flwyddyn);
 - Cynorthwyo'r Tîm Golygyddol gyda phenderfyniadau yn ymwneud â datblygiad a phrosesau'r cyfnodolyn, gan gynnig barn yn ôl y gofyn;
 - Cynrychioli'r Bwrdd Golygyddol ar Bwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (sy'n cwrdd deirgwaith y flwyddyn ar-lein);

- Cefnogi'r Golygydd a'r Is-olygydd mewn digwyddiadau hyrwyddo achlysurol megis yr Eisteddfod Genedlaethol (tua un neu ddau y flwyddyn).

10. Bydd tymor y swydd yn dair blynedd gan ddechrau ar 1 Medi 2024. Gellir cael ail dymor o dair blynedd gyda sêl bendith y Bwrdd Golygyddol.

11. Amcangyfrifir y bydd y gwaith, ar gyfartaledd, yn llai na hanner diwrnod y mis.

12. Rôl ddi-dâl yw hon. Telir costau rhesymol (e.e. teithio).

Nodweddion personol

13. Disgwylir y bydd y cadeirydd newydd yn academydd o fewn un o brifysgolion Cymru sydd â:

- Phrofiad helaeth o gyhoeddi academaidd;
- Dealltwriaeth dda o arferion cyhoeddi academaidd yn eu maes;
- Ymrwymiad cryf i gyhoeddi academaidd cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol ac i genadwri ac amcanion *Gwerddon* yn benodol.

Enwebiadau

14. Gwahoddir unigolion sydd â diddordeb yn y rôl i gyflwyno eu henw ynghyd â chrynodeb byr (hyd at 200 gair) yn amlinellu eu haddasrwydd ar gyfer y rôl drwy'r [ffurflen enwebu](#) erbyn 12:00 dydd Gwener 12 Ebrill 2024.

15. Gellir enwebu unigolyn arall ond dylid cael caniatâd yr unigolyn dan sylw.

16. Mae'r rôl yn agored i aelodau presennol Bwrdd Golygyddol *Gwerddon* ac i unigolion nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd.

17. Am sgwrs bellach ynglŷn â'r rôl, dylid cysylltu â gwybodaeth@gwerddon.cymru.

Proses ddewis

18. Dewisir y cadeirydd drwy bleidlais o aelodau presennol y Bwrdd Golygyddol (gan gynnwys y Golygydd a'r Is-olygydd) yn y cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf, a hysbysir yr enwebai llwyddiannus yn dilyn hynny.